# BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 8 Chwefror 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
C.A. Campbell, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins, L.M. Stephens a J. Tremlett

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr: D.M. Cundy, J.S. Edmunds a R. James

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
W. Walters, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
J. Jones, Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
S. Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg
D. Hockenhull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Corner, Swyddog Technegol
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Lloyd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb - 10.45 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif(au) y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Hazel Evans | 6 - Cynnig i Newid Natur y Ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir y Model | Yn aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dyddewi. |
| Glynog Davies | 14 - Adeilad Rhodfa'r Goron, Llanelli | Mae ganddo fuddiant personol a rhagfarnol. |

**3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR:**

**3.1. 18FED IONAWR, 2021**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2021 yn gofnod cywir.**

**3.2. 25AIN IONAWR, 2021**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2021 yn gofnod cywir.**

**4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

**5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**6. CYNNIG I NEWID NATUR Y DARPARIAETH YN YSGOL GYNRADD WG MODEL**

[SYLWER: Gan i'r Cynghorydd H. Evans ddatgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, gadawodd y cyfarfod cyn i'r cynnig gael ei ystyried a chyn y gwnaed penderfyniad yn ei gylch.]

Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad yn nodi ei gynigion y byddai natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir y Model yn newid i addysg cyfrwng Cymraeg o 1 Medi 2022.

Byddai'r newid ond yn effeithio ar ddisgyblion sy'n dechrau yn y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol o fis Medi 2022 ymlaen ac ni fyddai'n effeithio ar ddisgyblion presennol yr ysgol.

Dywedwyd bod y cynnig yn cefnogi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin a pholisïau cenedlaethol wrth symud ysgolion y sir ar hyd y continwwm Cymraeg.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant fod cymeradwyaeth yn cael ei cheisio i gychwyn ymgynghori ffurfiol yn unig, a oedd yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru.  Awgrymwyd y dylai'r Awdurdod ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru yn gofyn iddo egluro'n gyhoeddus y rheoliad mewn perthynas ag ymgynghoriadau. Cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai'n ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru ynghylch hynny.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL GYMERADWYO:**

**6.1 Y cynnig fel yr amlinellir yn yr adroddiad ac yn y ddogfen ymgynghori;**
**6.2 Bod y swyddogion yn cychwyn ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y cynnig;**
**6.3 Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori.**

## 7. CYNNIG I NEWID NATUR Y DARPARIAETH YN YSGOL Y FELIN

Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad yn nodi ei gynigion y byddai natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol y Felin yn newid i addysg cyfrwng Cymraeg o 1 Medi 2022.

Byddai'r newid ond yn effeithio ar ddisgyblion sy'n dechrau yn y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol o fis Medi 2022 ymlaen ac ni fyddai'n effeithio ar ddisgyblion presennol yr ysgol.

Dywedwyd bod y cynnig yn cefnogi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin a pholisïau cenedlaethol wrth symud ysgolion y sir ar hyd y continwwm Cymraeg.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL GYMERADWYO:**

**7.1 Y cynnig fel yr amlinellir yn yr adroddiad ac yn y ddogfen ymgynghori;**
**7.2 Bod y swyddogion yn cychwyn ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y cynnig;**
**7.3 Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori.**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2019-20

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd Gweithredol fod yr adroddiad wedi'i dynnu'n ôl.

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR YR IAITH GYMRAEG 2019-20

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

## 10. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

11. **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

12. **TIR YM MHENPRYS, LLANELLI**

**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 11 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd o ran yr adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn rhoi'r awdurdod dan anfantais mewn unrhyw drafodaethau dilynol gyda thrydydd partïon ac o bosibl yn niweidio pwrs y wlad.**

Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad ar gynigion i waredu tir sy'n eiddo i'r cyngor ym Mhenprys, Llanelli.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo dirprwyo'r awdurdod hwnnw i'r Pennaeth Adfywio, mewn ymgynghoriad â'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, i drafod telerau ac ymrwymo i gytundeb opsiynau gyda'r tirfeddiannwr cyfagos ym Mhenprys, Llanelli.**

13. **LLAIN 4 PARC ADWERTHU TROSTRE, LLANELLI**

**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 11 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd o ran yr adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn rhoi'r awdurdod dan anfantais mewn unrhyw drafodaethau dilynol gyda thrydydd partïon ac o bosibl yn niweidio pwrs y wlad.**

Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad ar gynigion i waredu tir sy'n eiddo i'r cyngor yn Llain 4, Parc Manwerthu Trostre, Llanelli.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y dylid cymeradwyo'r bwriad i waredu tir yn Llain 4, Parc Manwerthu Trostre, Llanelli ar y telerau a nodir yn yr adroddiad.**

## 14. ADEILAD RHODFA'R GORON, LLANELLI

[SYLWER: Gan i'r Cynghorydd G. Davies ddatgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, gadawodd y cyfarfod cyn i'r cynnig gael ei ystyried a chyn y gwnaed penderfyniad yn ei gylch.]

**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 11 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd o ran yr adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn rhoi'r awdurdod dan anfantais mewn unrhyw drafodaethau dilynol gyda thrydydd partïon ac o bosibl yn niweidio pwrs y wlad.**

Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad yn cynnig gwaredu adeilad Rhodfa'r Goron yng nghanol tref Llanelli i gefnogi'r gwaith o adnewyddu / ymestyn Adeilad cyfagos y Goron.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo gwaredu Adeilad Rhodfa'r Goron, Llanelli ar y telerau a nodir yn yr adroddiad.**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**